

RHAGLEN

DATGAN BUDDIANNAU

Atgoffir yr Aelodau'n barchus bod angen iddynt ddatgan buddiannau personol a/neu ragfarnus mewn unrhyw fusnes i'w ystyried yn y cyfarfod hwn.

1. YMDDIHEURIADAU

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau a gyflwynwyd ar ran yr Aelodau am absenoldeb.

2. ADRODDIAD TALIADAU A DERBYNIADAU (ATODLEN A) – EBRILL 2018

Derbyn adroddiad Clerc y Dref (copi'n amgaeedig).

3. AWDURDODI TALIADAU (ATODLEN B)

Derbyn a phenderfynu ar adroddiad Clerc y Dref (copi'n amgaeedig).

4. POLISI CFRONFEYDD WRTH GEFN

Ymhellach i gofnod rhif 106 y cyfarfod a gynhaliwyd ar 6fed Chwefror 2018, derbyn adroddiad Clerc y Dref i gymeradwyo cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd (copi'n amgaeedig).

5. ADRODDIAD BUDDSODDIADAU 2017/18

Derbyn adroddiad cynnydd ar fuddsoddiadau'r Cyngor (copi'n amgaeedig).

6. CADEIRYDD Y PWYLLGOR CYLLID A DIBENION CYFFREDINOL – ADRODDIAD SICRWYDD 2012/18

Derbyn adroddiad y Cadeirydd (copi'n amgaeedig) ar yr archwiliadau sicrwydd a ymgwymerwyd yn unol â rheoliadau ariannol y Cyngor.

7. PENODI CYNRYCHIOLYDD I FUDIAD ALLANOL – GRŴP LLYWIO A GWEITHREDU BID Y RHYL A PHRESTATYN – CAIS I ANNERCH Y CYNGOR

Derbyn yr uchod (copi'n amgaeedig) yn gwahodd y Cyngor i benodi cynrychiolydd i fynychu cyfarfodydd y grŵp llywio a phenderfynu ar gais gan yr ymgynghorydd i roddi cyflwyniad i'r Cyngor Tref.

8. POLISI CADW DOGFENNAU CYNGOR TREF Y RHYL

Cymeradwyo argymhelliad gan yr Is-bwyllgor Asesu Risg i gyflwyno Polisi Cadw Dogfennau (copi'n amgaeedig).

9. RHEOLIADAU DIOGELU DATA CYFFREDINOL

Derbyn adroddiad llafar Clerc y Dref.

10. YSWIRIO WARDENIAID LLIFOGYDD

Penderfynu ar adroddiad Clerc y Dref (copi'n amgaeëdig).

11. EITEMAU GWYBODAETH GAN YR AELODAU

Derbyn gwybodaeth gan yr Aelodau ar faterion brys sy'n codi, manylion y rhain sydd wedi eu cytuno gyda'r Cadeirydd cyn i'r cyfarfod ddechrau.

12. GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD

Argymhellir, dan Adran 1(2) Deddf Cyrff Cyhoeddus (Derbyn i Gyfarfodydd) 1960, y dylid gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r cyfarfod wrth ystyried yr eitemau busnes canlynol, oherwydd cyfrinachedd.

13. SEFYDLIAD – DYFARNIAD CYFLOG COSTAU BYW

Hysbysu'r Cyngor o gytundeb cyflog 2018 (2%) a gofyn am awdurdod i'w weithredu.

14. EITEM SEFYDLOG: GORCHMYNION CAU HEDDLU GOGLEDD CYMRU

Mewn perthynas â Chofnod Rhif 79 cyfarfod y Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol a gynhaliwyd ar 3ydd Chwefror 2016, ystyried unrhyw geisiadau gan Heddlu Gogledd Cymru (manylion i'w dosbarthu yn y cyfarfod os oes angen).

15. TERFYNU'R CYFARFOD

Y Cadeirydd i ddirwyn y cyfarfod i ben.